


LLYFR GWAITH HUNANGYFEIRIEDIG AR ORFWYTA MEWN PYLIAU




Specialist Eating Disorders Service
Aneurin Bevan University Health Board

CYNNWYS

Bwriad y llyfr gwaith hwn yw'ch helpu i ddeall eich ymddygiadau gorfwyta mewn pyliau ac i ddatblygu sgiliau a thechnegau i'w lleihau. Mae'n seiliedig ar nifer o strategaethau gwahanol ac mae'n seiliedig ar lyfr *Overcoming Binge Eating Book* gan Christopher Fairburn. Rhennir y cwrs yn adrannau sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Beth yw gorfwyta mewn pyliau?
- Pam mae pobl yn gorfwyta mewn pyliau?
- Pam ydw i'n gorfwyta mewn pyliau?
- Canlyniadau gorfwyta mewn pyliau
- Sut i roi'r gorau i orfwyta mewn pyliau.
- Gwefannau a deunyddiau darllen defnyddiol.

Beth yw Gorfwyta mewn Pyliau?



Defnyddir y term gorfwyta mewn pyliau i ddisgrifio bwyta symiau gormodol o fwyd. I lawer o bobl, nid yw hyn yn peri niwed, mae'n digwydd yn achlysurol ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar eu bywydau. I eraill, mae'n golygu colli rheolaeth ac mae'n broblem ddifrifol sy'n digwydd mewn pyliau dro ar ôl tro, gan arwain yr unigolyn at deimlo ei fod wedi colli rheolaeth a theimladau'n cynnwys euogrwydd a chywilydd ar ôl gorfwyta. Efallai na fydd yr hyn sy'n teimlo fel gorfwyta i rai yn teimlo felly i eraill; mae'n brofiad personol iawn ond bernir ar y cyfan fod achos o orfwyta mewn pyliau wedi'i ddiffinio gan y canlynol:

- 1- Bwyta mewn cyfnod o amser ar wahân (e.e. o fewn unrhyw gyfnod o ddwy awr) swm o fwyd sydd yn bendant yn fwy na'r hyn y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei fwyta yn ystod cyfnod tebyg o amser ac mewn amgylchiadau tebyg.
- 2- Ymdeimlad o ddiffyg rheolaeth dros orfwyta yn ystod y pwl dan sylw (e.e. teimlad nad yw'r unigolyn yn gallu stopio bwyta na rheoli beth neu faint y mae'r unigolyn yn ei fwyta).

Er y gallai profiadau o orfwyta mewn pyliau amrywio rhwng un unigolyn a'r llall, mae ymchwil wedi canfod bod rhai nodweddion cyffredin ynghlwm wrth hyn. Os ydych yn gorfwyta mewn pyliau, efallai y byddwch yn adnabod y profiadau canlynol:

- **Teimladau** - Gall dechrau achos o orfwyta mewn pyliau fod yn bleserus, efallai y bydd blas ac ansawdd y bwyd yn hynod ddymunol. Fodd bynnag, yn bur anaml y bydd y teimladau hyn yn para. Mae teimladau diflastod yn cymryd lle'r teimladau hyn o fewn dim o dro wrth i fwyfwy o fwyd gael ei fwyta. Mae rhai pobl yn teimlo ffeiddod ond nid ydynt yn gallu stopio gwneud yr hyn y maent yn ei wneud.
- **Cyflymder Bwyta** - Fel arfer, mae pobl yn bwyta'n gyflym iawn pan fyddant yn gorfwyta mewn pyliau. Mae llawer yn rhoi bwyd yn eu ceg bron yn fecanyddol, heb ei gnoi ryw lawer. Bydd rhai hefyd yn yfed symiau mawr er mwyn helpu'r bwyd i fynd i lawr sy'n cyfrannu at deimlo'n llawn ac yn chwyddedig.
- **Cynnwrf** - Nid yw rhai pobl yn gallu eistedd wrth orfwyta mewn pyliau ac efallai y byddant yn cerdded yn ôl ac ymlaen. Efallai y byddant yn teimlo'n anobeithiol; mae'r ysfa am fwyd yn rym peryglus iawn sy'n eu cymell i fwyta. Mae cael gafael ar fwyd yn dod yn hynod bwysig; efallai y bydd pobl yn cymryd bwyd sy'n eiddo i eraill, yn dwyn

o siopau neu'n bwyta bwyd sy'n weddill. Mae'r rhan fwyaf yn profi'r ymddygiad hwn fel rhywbeth ffaidd, diraddiol a chywilyddus.

- **Teimlad o Newid i'r Ymwybyddiaeth** - Mae pobl yn disgrifio teimlo fel pe baent mewn swyngwsg pan fyddant yn gorfwyta mewn pyliau. Os yw hyn yn rhywbeth rydych chi'n ei brofi, rydych yn gwybod ei fod yn teimlo'n awtomatig bron, pe bai nad chi sy'n bwyta mewn gwirionedd. Mae rhai pobl yn sôn y byddant yn defnyddio ffordd o wrthdynnu'r sylw fel gwyllo'r teledu er mwyn osgoi gorfod meddwl am yr hyn maent yn ei wneud.
- **Celu** - Un o nodweddion cyffredin gorfwyta mewn pyliau yw ei fod yn digwydd heb fod yn y golwg. Mae rhai pobl yn teimlo cymaint o gywilydd am orfwyta mewn pyliau nes eu bod yn gwneud ymdrechion mawr i'w guddio. Gallai hyn gynnwys bwyta'n normal gydag eraill a dychwelwyd yn ddiweddarach i fwyta'r holl fwyd dros ben, neu fynd â bwyd i ystafell arall i'w fwyta. Efallai y bydd rhai pobl yn prynu bwyd o nifer o siopau gwahanol ac yn ei fwyta yn y car er mwyn sicrhau nad yw eraill yn ymwybodol o'r hyn maent yn ei fwyta.
- **Colli Rheolaeth** – Fel y soniwyd yn gynharach, mae hon yn un o nodweddion craidd gorfwyta mewn pyliau. Gallai'r teimlad o golli rheolaeth ddechrau cyn bwyta, gall gronni'n raddol wrth fwyta neu gall dechrau'n sydyn pan fydd rhywun yn sylweddoli ei fod wedi bwyta gormod. Mae rhai pobl sy'n gorfwyta mewn pyliau ers blynyddoedd lawer yn sôn bod y teimlad o golli rheolaeth wedi lleihau dros amser. Nid ydynt yn ceisio gwrthsefyll gorfwyta mewn pyliau mwyach gan eu bod yn gweld hynny fel anochel. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd rhywun yn cynllunio gorfwyta mewn pyliau er mwyn cynnal ymdeimlad o reolaeth ynghylch pryd a ble y bydd yn gorfwyta mewn pyliau. Er ei fod yn teimlo bod ganddo fwy o reolaeth, nid felly yw hi mewn gwirionedd gan nad yw'n gallu atal gorfwyta mewn pyliau ac nid yw'n gallu stopio unwaith y mae wedi dechrau.

Treuliwch ychydig o amser yn meddwl am eich profiadau pan fyddwch yn gorfwyta mewn pyliau? A allwch chi uniaethu â'r rhai a restrir uchod? Ysgrifennwch eich syniadau yn y gofod ar y dudalen nesaf.

A allwch uniaethu â'r profiadau hyn? Os felly, sut mae'r rhain yn effeithio arnoch chi?

Os yw'r profiadau hyn yn rhywbeth y gallwch uniaethu ag ef, mae'n debygol bod gorfwyta mewn pyliau yn cael effaith sylweddol ar ansawdd eich bywyd. Bydd yr adrannau canlynol o'r llyfr gwaith hwn yn eich helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth am y rheswm pam mae gorfwyta mewn pyliau yn digwydd ac yn rhoi rhai strategaethau i chi er mwyn lleihau'r ymddygiad yma.

Mythau Gorfwyta mewn Pyliau:

Myth: Mae gorfwyta mewn pyliau yr un peth â bwyta gormod.

Ffaith: Nid yw gorfwyta mewn pyliau a bwyta gormod yr un peth.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei gorwneud hi o ran eu hoff fwydydd o dro i dro a byddant yn dioddef canlyniadau teimlo'n anghyfforddus tan ar ôl i'r pryd o fwyd gael ei dreulio. Mae pobl sy'n cael anhawster gydag anhwylder gorfwyta mewn pyliau hefyd yn bwyta gormod, ond mae o ganlyniad i orfoddedd yn hytrach na dewis achlysurol i'w gorwneud hi.

Wrth edrych ar orfwyta mewn pyliau o gymharu â bwyta gormod, gwahaniaeth arall yw swm y bwyd sy'n debygol o gael ei fwyta yn ystod y cyfnod amser y bydd rhywun yn ei gorwneud hi. Mae symiau'r bwyd y byddai rhywun sy'n gorfwyta mewn pyliau yn eu bwyta yn fwy o lawer na'r hyn y byddai rhywun yn ei fwyta fel arfer wrth fwyta gormod; gall gorfwyta mewn pyliau ei symbylu mewn cymhelliant a cholli rheolaeth, sy'n arwain at fwyta bwyd mewn swmpau.

Mae hyd yr amser y mae gorfwyta'n digwydd hefyd yn debygol o bara'n hirach yn achos y sawl sy'n gorfwyta mewn pyliau o gymharu â rhywun sy'n bwyta gormod wrth gael pryd o fwyd penodol. Gall achosion o orfwyta mewn pyliau bara hyd at ddwy awr.

Myth: Mae gorfwyta mewn pyliau hefyd yn effeithio ar unigolion sydd dros eu pwysau.

Ffaith: Mae pobl sydd ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau dros eu pwysau yn fynych, ond nid yw hyn yn wir i bawb sydd â'r cyflwr.

Nid yw anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn effeithio ar bobl sydd dros eu pwysau yn unig. Mewn gwirionedd, un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr anhwylder weithiau yw cyfyngu'n gaeth ar galoriau yn ystod y dydd, sy'n arwain at adeffaith a gorfwyta mewn pyliau gyda'r nos. Gall rhywun o bwysau normal gael anhwylder gorfwyta mewn pyliau yr un fath â phawb arall. Mae gorfwyta mewn pyliau a magu pwysau'n gyffredin, ond nid yw'n ffactor y gellir ei ddefnyddio i benderfynu p'un a oes gan rywun yr anhwylder ai peidio.

Gall cyfraddau metabolaeth a dylanwadau genetig effeithio ar faint corff unigolyn a symiau'r bwyd sy'n achosi i unigolyn penodol fagu pwysau. Oherwydd arlliwiau'r ffactorau amrywiol hyn, gall unigolyn fod ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau ond heb fod dros ei bwysau. Efallai na fydd rhywun sy'n gorfwyta mewn pyliau ac sydd â metaboledd cyflym a rhagueddiad genetig i faint corff main yn cario pwysau gormodol, ac mae hynny'n golygu ei bod yn anodd canfod y cyflwr.

Nid yw pawb sydd ag anhwylderau gorfwyta mewn pyliau dros eu pwysau; yn yr un modd, nid yw pawb sydd dros eu pwysau'n bwyta gormod. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig er mwyn cael gwell dealltwriaeth am anhwylderau bwyta ac i osgoi camlabelu pobl neu waethygu stigma ac ynysu.

Myth: Mae colli pwysau neu ddilyn deiet yn iacháu anhwylder gorfwyta mewn pyliau.

Ffaith: Gall dilyn deiet arwain at anhwylder gorfwyta mewn pyliau mewn gwirionedd.

I'r gwrthwyneb i'r hyn y gallai rhai pobl ei gredu, nid yw dilyn deiet yn fodd o iacháu gorfwyta mewn pyliau. Gall yr awydd i golli pwysau sy'n cymell y broses o ddilyn deiet arwain at amddifadedd neu arferion bwyta cyfyngol. Gall yr amddifadedd hwn sbarduno pobl sy'n dueddol o orfwyta at gael anhwylder gorfwyta mewn pyliau, gan ei fod yn creu straen ychwanegol a ffocws gormodol ar fwyd. Mae dilyn deiet er mwyn rhoi stop ar orfwyta mewn pyliau yn debygol o atgyfnerthu'r ymddygiad oherwydd y cylch amddifadu/gorfwyta mewn pyliau. Hyd yn oed os byddai rhywun yn llwyddo i golli pwysau, nid yw hynny'n golygu bod yr anhwylder gorfwyta wedi pylu wedi iacháu.

Yn yr un modd ag unrhyw anhwylder bwyta, mae gorfwyta mewn pyliau'n ymwneud â pherthynas unigolyn gyda bwyd a'i effaith ar fywyd, iechyd a gweithrediad yr unigolyn. Waeth beth yw pwysau unigolyn, y gydberthynas hon yw'r ffactor sy'n penderfynu p'un a yw anhwylder bwyta'n weithredol neu a yw wedi pylu. Dylai rhywun sy'n awyddus i gael gwybodaeth am sut i roi'r gorau i orfwyta mewn pyliau ystyried opsiynau triniaeth sy'n mynd i'r afael â'r gydberthynas isorwedol hon gyda bwyd ochr yn ochr ag unrhyw gyflyrau eraill sy'n bodoli eisoes.

Mae myth colli pwysau neu ddilyn deiet fel iachâd ar gyfer anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn un peryglus, gan ei fod yn arwain at barhau â gweithgaredd sy'n gallu gwaethygu'r cyflwr fel mater o drefn. Mae cylchoedd ymddygiad cyfyngol a gorfwyta mewn pyliau hefyd yn fodd o barhau â'r cywilydd a'r euogrwydd y mae pobl ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn ei brofi.

Myth: Mae anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn anghyffredin.

Ffaith: Mae anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn fwy cyffredin nac anorecsia, bwlimia, HIV a chanser y fron.

Mae ystadegau gorfwyta mewn pyliau yn dangos mai hwn yw'r anhwylder bwyta mwyaf cyffredin, ac mae'r amllder yn fwy na thair gwaith cyfraddau anorecsia a bwlimia gyda'i gilydd. Mae anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy cyffredin nac y gwyddom ni, o ystyried bod llawer o bobl sydd â'r cyflwr yn parhau i fod heb eu trin ac

nad ydynt yn dweud wrth eraill amdano oherwydd cywilydd neu embaras yn ymwneud â'r anhwylder.

Cafodd anhwylder gorfwyta mewn pyliau ei wahaniaethu oddi wrth fathau eraill o anhwylderau bwyta yn 2013 pan gafodd pumed rhifyn y DSM ei gyhoeddi. Gwahaniaethwyd rhwng gorfwyta mewn pyliau a bwlimia o ganlyniad i gydnabyddiaeth nad yw pawb sy'n gorfwyta mewn pyliau yn cymryd rhan mewn ymddygiad i wagio'r bwyd a fwytawyd o'u stumog (gwagio). Mewn gwirionedd, darganfuwyd ei bod yn fwy cyffredin o lawer i bobl fod ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau heb wagio'r stumog. Roedd hyn yn wahaniaeth pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ddau anhwylder a chydabuwyd y ddau gyflwr fel rhai gwahanol ac ar wahân.

Myth: Gellir rheoli gorfwyta mewn pyliau gyda grym ewyllys.

Ffaith: Efallai y bydd yn ymddangos fel mater grym ewyllys yn unig, ond mae realiti gorfwyta mewn pyliau yn wahanol iawn ac yn fwy cymhleth.

Mae gorfwyta mewn pyliau yn debyg i broses gaethiwus o ran y gorfodedd sy'n cymryd drosodd yn ystod achos o orfwyta mewn pyliau. Mae awgrymu y dylai rhywun sydd ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau "ddefnyddio grym ewyllys" yn unig yn debyg i ddweud hynny wrth unigolyn sy'n ddibynnol ar sylweddau. Pe bai mor syml â defnyddio grym ewyllys, ni fyddai gan neb unrhyw fath o ymddygiad gorfodaethol neu niweidiol, boed hynny'n cynnwys gorfwyta mewn pyliau neu camddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Gydag anhwylderau o'r fath, mae proses yn digwydd yn y derbynyddion dopamin yn yr ymennydd ac mae hyn yn troi'r broses o orfwyta mewn pyliau yn ymddygiad cymhellol a gorfodaethol sy'n anodd ei reoli. Yn fyr, mae'r broses yn herwgio'r ymennydd ac yn troi gorfwyta mewn pyliau yn gaethiwed i'r rhai sy'n profi'r anhwylder hwn. Efallai bod defnyddio grym ewyllys gyda gorfwyta mewn pyliau yn swnio fel awgrym rhesymegol, ond pan fydd rhywun yn ystyried y ffactorau isorweddol, mae'n awgrym rhy syml o lawer ac mae'n awgrymu beirniadaeth bod yr unigolyn sydd â'r cyflwr rywsut yn wan neu'n ddiog.

Gall triniaeth at anhwylder gorfwyta mewn pyliau gynnwys mathau gwahanol o seicotherapi, meddyginiaethau neu gyfuniad o'r ddau. Mae cymorth proffesiynol ar gyfer anhwylder gorfwyta mewn pyliau ar gael a gall fod yn rhan allweddol o adferiad.

Myth: Nid oes i orfwyta mewn pyliau unrhyw oblygiadau hirdymor.

Ffaith: Gall anhwylder gorfwyta mewn pyliau arwain at oblygiadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol yn y tymor hir.

Gall goblygiadau iechyd anhwylder gorfwyta mewn pyliau gynnwys gordewdra, diabetes, pwysedd gwaed uchel, a cholesterol uchel. Gall effeithiau ychwanegol anhwylder gorfwyta mewn pyliau cynnwys ynysu cymdeithasol, hunanbarch isel ac iselder. Ar gyfer yr 1 ym mhob 4 o bobl sydd â diagnosis ar y cyd o PTSD ac anhwylder gorfwyta mewn pyliau, mae'r tebygolrwydd o ynysu cymdeithasol hyd yn oed yn fwy.

Efallai y bydd teimladau cywilydd ac embaras yn ymwneud â'r cyflwr arwain at heriau o ran hunanbarch a gwrthod bwyta o flaen pobl eraill. Gan fod cymaint o'n normau diwylliannol yn ymwneud â bwyta bwyd, efallai y bydd pobl ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau ac anhwylderau bwyta eraill yn osgoi achlysuron cymdeithasol oherwydd ofn cael eu barnu.

Mae mwy o ymwybyddiaeth gymdeithasol a sgysiau iach am gywilyddio corfforol nag a fu yn y gorffennol, ond i bobl ag anhwylderau bwyta, mae'r heriau hyn yn dal i fod wedi'u hymwreiddio'n ddwfn. Wrth i ymwybyddiaeth o anhwylder gorfwyta mewn pyliau ehangu yn ein cymdeithas ac wrth i fythau gael eu chwalu, mae'n fwyfwy tebygol y bydd pobl sydd â'r cyflwr yn gofyn am y driniaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywydau iachach a hapusach

Myth: Mae anhwylder gorfwyta mewn pyliau'n effeithio ar oedolion yn unig.


Ffaith: Gall anhwylderau gorfwyta mewn pyliau ddigwydd yn achosion oedolion, pobl ifanc yn eu harddegau a phlant.

Er bod anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn aml yn dechrau ar ddiwedd yr arddegau neu fel oedolyn ifanc, gall plant iau ac oedolion hŷn dderbyn diagnosis hefyd. Gall anhwylder gorfwyta mewn pyliau gael ei waethygu gan straen, gan fod gorfwyta mewn pyliau'n dod yn ffordd o hunangysuro. Mae cysylltiad hefyd rhwng esgeulustod a chamdriniaeth yn achos plant sydd ag anhwylderau gorfwyta mewn pyliau, ond yn sicr, nid felly yw hi ym mhob sefyllfa. Mae'n debyg bod plant a phobl ifanc yn eu harddegau sy'n cael anhawster gydag anhwylder gorfwyta mewn pyliau o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod wedi cael cysur wrth ddefnyddio bwyd pan nad oedd cysur emosiynol ar gael yn hawdd nac yn gyson.

Mae gan nifer drawiadol o 1 ym mhob pedwar o bobl sydd ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau ddiagnosis ar y cyd o anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Mae'r ffaith bod cyfran mor fawr o bobl â'r cyflwr hwn wedi profi trawma sy'n ddigon arwyddocaol i gael diagnosis PTSD yn atgyfnerthu'r syniad bod anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn seiliedig ar straen a hunangysuro.

Gall fod yn anodd diagnosio anhwylderau gorfwyta mewn pyliau yn achos plant, gan fod plant yn aml yn profi cynnydd mewn twf ac mae angen maetholion ychwanegol arnynt i dyfu. Weithiau, gall rhieni ganfod anhwylder gorfwyta mewn pyliau yn achos eu plant ar ôl sylwi ar symiau mawr o fwyd yn mynd ar goll neu bacedi bwyd yn cael eu cuddio yn ystafell y plentyn.

Pam mae Pobl yn Gorfwyta mewn Pyliau?



Fel yr ydym wedi'i drafod eisoes, mae gorfwyta mewn pyliau yn brofiad personol iawn. Mae'n anodd nodi rheswm penodol pam y mae rhywun yn dechrau gorfwyta mewn pyliau a'i fod yn parhau i wneud hynny. Mae am gyfuniad o resymau, yn ôl pob tebyg. Ymddengys fod gan ffactorau cymdeithasol, seicolegol a chorfforol oll rôl i'w chwarae yn hyn o beth. Yn yr adran hon, byddwn yn trafod y damcaniaethau'n ymwneud â datblygu a chynnal ymddygiad sy'n gysylltiedig â gorfwyta mewn pyliau.

Mae ymchwil yn awgrymu bod pedwar llwybr cyffredin at ddatblygu gorfwyta mewn pyliau.

Llwybr 1

Dilyn deiet → Anorecsia Nerfosa → Gorfwyta mewn pyliau

Yn y llwybr hwn, mae unigolyn yn dechrau dilyn deiet ac yn colli pwysau yn ystod ei ardddegau, efallai nad oedd dros ei bwysau yn y lle cyntaf. Os yw'r golled mewn pwysau yn eithafol, mae'n arwain at ddatblygu anorecsia nerfosa. Ymhen amser, bydd ei reolaeth dros orfwyta'n lleihau a bydd yn dechrau gorfwyta mewn pyliau.

Llwybr 2

Gordewdra → Dilyn Deiet → Gorfwyta mewn pyliau

Mae Llwybr 2 yn cael ei ddisgrifio'n fynych gan lawer o bobl sydd ag anhwylder gorfwyta mewn pyliau. Yn yr achosion hyn, maent wedi profi problemau pwysau fel plentyn ac ymddengys fod dilyn deiet yn ymateb i ordewdra i raddau amrywiol.

Llwybr 3

Gorfwyta yn ystod plentyndod → Dilyn Deiet → Gorfwyta mewn pyliau

Ar y llwybr hwn, efallai y bydd problemau pwysau yn bresennol neu beidio ac ymddengys fod hyd a lled y problemau'n amrywio rhwng un unigolyn a'r llall. Ymddengys fod dilyn deiet mewn ymateb i orfwyta mewn pyliau yn gwneud pethau'n waeth; mae gorfwyta'n parhau ac mae ymdeimlad o golli rheolaeth yn datblygu ar yr un pryd gan greu cylch dieflig.

Llwybr 4

Emosiynau annymunol → Gorfwyta mewn Pyliau

Ni ymddengys fod i ddilyn deiet rôl arwyddocaol ar y llwybr hwn, mae'n gysylltiedig â phroblemau rheoli ysfeydd. Ymddengys fod defnyddio ymddygiadau cymhellol i ryddhau tensiwn yn un o'r prif nodweddion wrth ddatblygu gorfwyta mewn pyliau.

Er mai dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin, mae eraill yn digwydd ac mae rhai pobl yn dilyn cyfuniad ohonynt. Defnyddiwch y gosod isod i fyfyrion ynghylch eich profiadau.

A oes unrhyw rai o'r llwybrau hyn yn swnio'n gyfarwydd i chi? Os felly, pa un? A oes llwybr gwahanol yr ydych chi wedi'i ddilyn, yn eich barn chi? Os oes, sut olwg sydd ar eich llwybr chi?

Ffactorau Seicolegol

- **Teimladau Anymunol** Gall iselder fod yn sbardun hynod bwerus o ran ymddygiadau gorfwyta mewn pyliau. Mae emosiynau eraill yn cynnwys dicter, unigrwydd, diflastod, anniddigrwydd, tensiwn ac anobaith. Gall y rhain fod yn broblemau hirdymor i bobl a gall gorfwyta mewn pyliau leddfu'r teimladau hynny am gyfnod. Fodd bynnag, er y gall deimlo yn y lle cyntaf fel pe bai bwyta'n helpu i reoli'r emosiynau hyn, fel y trafodwyd yn gynharach, mae hyn yn para am gyfnod byr fel arfer a gall gorfwyta mewn pyliau atgyfnerthu neu hyd yn oed waethgu'r teimladau hyn.

A ydych o'r farn bod unrhyw rai o'r teimladau anonymol hyn yn cyfrannu at eich gorfwyta mewn pyliau? Os felly, pa rai? A ydynt yn cael unrhyw effaith arall arnoch chi ac ansawdd eich bywyd?

- **Pryderon ynghylch Ymddangosiad a Phwysau** - Mae llawer o bobl sy'n gorfwyta mewn pyliau yn pryderu ynghylch eu hymddangosiad a'u pwysau, mae'r rhan fwyaf yn awyddus i golli pwysau ac maent yn ofni magu pwysau. Mae'r pryderon hyn yn arwain at ddilyn deiet, sy'n tueddu i arwain at orfwyta mewn pyliau, fel y mae'r llwybrau a ddisgrifir yn gynharach yn ei ddangos. Dangoswyd bod dilyn deiet wedi bod yn gysylltiedig â datblygu a chynnal ymddygiadau gorfwyta mewn pyliau. Byddwn yn edrych ar effeithiau dilyn deiet a sut mae hyn yn cyfrannu at orfwyta mewn pyliau yn ddiweddarach yn ystod yr adran hon. Efallai y bydd rhai pobl yn pwysu eu hunain yn gyson neu efallai y bydd eraill yn osgoi pwysu eu hunain sy'n gallu cynnal meddyliau negyddol am eu hymddangosiad a'u pwysau. Efallai y bydd pobl yn teimlo cywilydd a diflastod sy'n atgyfnerthu ymddygiad dilyn deiet ac felly, bydd cylch dieflig yn datblygu.

A oes gennych bryderon ynghylch eich pwysau a/neu'ch ymddangosiad? Os felly, pryd wnaeth y rhain ddechrau? A yw'r pryderon hyn yn effeithio arnoch chi mewn unrhyw ffordd arall?

- **Nodweddion Personoliaeth** - Mae rhai nodweddion sy'n gyffredin ymysg y rhai sy'n gorfwyta mewn pyliau.
 - **Hunanbarch Isel** Mae teimladau am fod yn annigonol ac yn ddiwerth yn gyffredin ymysg y rhai sydd â phroblemau gorfwyta mewn pyliau ers plentyndod. Mae rhai pobl yn sôn am brofi'r teimladau hyn trwy gydol eu plentyndod. I rai, maent yn aml yn ymwneud â'r iselder sy'n gysylltiedig â'r gorfwyta mewn pyliau y maent yn ei brofi.
 - **Perffeithiaeth** Mae hon yn nodwedd hirsefydledig gyffredin arall ymysg pobl sydd â phroblemau gorfwyta mewn pyliau. Maent yn tueddu i osod safonau

goruchelgeisiol iddynt eu hunain. Mae hyn yn arbennig o broblemus pan fo'n gysylltiedig â'r nodau deietegol y bydd rhywun yn eu pennu iddo ei hun, yn enwedig pan nad yw'r safonau hyn yn realistig. Gall methu â chyrraedd y safonau hyn ddigaloni'r unigolyn, yn enwedig os yw hunanbarch yn isel.

- **Meddwl mewn Ffordd Ddu a Gwyn** Mae'r arddull meddwl hwn hefyd yn bresennol, yn aml, ymysg y rhai sy'n gorfwyta mewn pyliau. Mae'n gysylltiedig â pherffeithiaeth yn aml ac mae'n arwain pobl sydd â phryderon ynghylch ymddangosiad a phwysau i bennu nodau deietegol llym. Mae'n annog gorfwyta mewn pyliau gan ei fod yn arwain pobl i golli rheolaeth os ydynt yn teimlo bod llithriad o ran eu cymeriant deietegol gan eu bod yn gweld hyn fel methiant.
- **Byrbwylltra** Mae rhai pobl sydd â phroblemau gorfwyta mewn pyliau yn cael anhawster wrth reoli ysfeydd. Bydd nifer fach o bobl hefyd yn dangos ymddygiadau eraill i reoli ysfeydd fel gamblo neu yfed alcohol. Credir yn fynych fod ymddygiadau byrbwyll yn cael eu defnyddio i leddfu tensiwn.

A oes unrhyw rai o'r nodweddion personoliaeth hyn yn eich disgrifio chi? Os felly, pa rai?

Ffactorau Cymdeithasol ac Amgylcheddol

- **Trawma Emosiynol** Deellir bod profiadau bywyd anodd fel camdriniaeth, profedigaeth a bwlio yn cynyddu'r risg o anhwylder gorfwyta mewn pyliau. Efallai y bydd pobl sydd wedi profi sylwadau beirniadol am eu cyrff neu eu pwysau yn arbennig o agored i niwed.
- **Amgylchedd y Cartref** Fel plant, rydym yn dysgu ein harferion bwyta gan y rhai rydym yn byw gyda nhw. Wrth dyfu i fyny, os oedd aelodau eich teulu yn gorfwyta neu'n defnyddio bwyd i reoli emosiynau, mae'n bosibl eich bod chi hefyd wedi datblygu'r ymddygiadau hyn. Efallai y bydd rhai pobl wedi profi diffyg mynediad at fwyd neu beidio bwyta'n rheolaidd. Nid yw hyn yn golygu bod aelodau eich teulu yn gyfrifol am eich ymddygiad chi o ran gorfwyta mewn pyliau. Gall straen parhaus yn amgylchedd y cartref atgyfnerthu ymddygiadau gorfwyta mewn pyliau fel strategaeth ymdopi.

A allwch chi feddwl am unrhyw brofiadau rydych wedi'u cael a allai ddylanwadu ar y ffordd yr ydych yn meddwl ac yn ymddwyn nawr?

- **Effaith y Cyfryngau** Mae'r cyfryngau'n cael effaith arwyddocaol ar y ffordd y mae pobl yn gwerthuso eu siâp a'u pwysau. Mae cred gref bod angen i bobl fod ag ymddangosiad penodol. Mae'r diwydiant deiet sy'n werth sawl miliwn o bunnau yn helpu i atgyfnerthu'r credoau hyn ynghylch ystyr y corff perffaith trwy negeseuon yn y cyfryngau a hysbysebion. Maent yn cynnig ffordd 'gyflym a hawdd' i chi o gael y corff perffaith. Ond mewn llawer o achosion, nid yw eu dulliau'n realistig. Mae unigolion yn teimlo'n ddi-werth gan eu bod yn gorfod wynebu pwyslais y gymdeithas ar fod yn denau a delfrydau'r gymdeithas yn ymwneud â harddwch. Ar y llaw arall, mae rhai diwydiannau bwyd yn hyrwyddo bwydydd yn eang felly mae'r ddau'n eich targedu fel prynwr gyda'u cynhyrchion, maent yn awyddus i'ch denu atynt.

Y Diwydiant a Chi

Mae'r diwydiant bwyd am i chi:	Mae'r diwydiant deiet am i chi:
<ul style="list-style-type: none"> • Bwyta bwydydd llawn siwgr • Bwyta llawer • Bwyta bwydydd llawn braster • Bwyta bwydydd wedi'u prosesu 	<ul style="list-style-type: none"> • Teimlo fel 'rydych chi'n iawn waeth beth yw'ch pwysau' • Teimlo bod angen i chi fod yn denau • Dilyn deiet • Colli pwysau • Magu pwysau • Dilyn deiet arall • Ac un arall • Ac un arall

A ydych chi'n teimlo fel pe baech chi wedi'ch rhwydo rhwng y negeseuon hyn, sut deimlad yw hynny?

Dilyn Deiet a Bwyta Afreolaidd


Bydd llawer o bobl sydd eisiau colli pwysau yn aml yn gwneud hynny trwy gyfyngu ar eu cymeriant. Gallai hyn fod drwy gyfyngu ar galoriau, hepgor prydau bwyd neu osgoi rhai grwpiau bwyd. Nid dim ond pobl sydd eisiau colli pwysau a allai fod â phatrwm bwyta cyfyngol neu afreolaidd. Efallai y bydd rhai pobl yn cyfyngu ar fwyd i reoli eu hemosiynau, efallai y bydd rhai'n meddwl eu bod yn rhy brysur i fwyta'n rheolaidd. Y broblem sy'n codi gyda hyn yw y bydd y corff yn ymwybodol nad yw'n cael yr hyn sydd ei angen arno.

Mae'r corff dynol yn rhyfeddol! Mae wedi'i raglennu i ofalu amdano'i hun. Yn gyffredinol, mae pob un ohonom yn bobl ogof a bydd y corff yn ymateb yn yr un ffordd ag y byddai cyrff pobl ogof. Pe bai dyn ogof llwglyd yn cerdded trwy'r anialwch ac yn dod o hyd i lwyth o fwyd, byddai'n bwyta cymaint ag y gallai, cyn gynted ag y gallai. Mae hon yn nodwedd amddiffynnol gan nad yw'r dyn ogof yn gwybod pryd fydd ei bryd bwyd nesaf.


Nid yw'r dyn ogof am i bobl ogof llwglyd eraill ddwyn y bwyd chwaith. Dyma pam mae pobl yn mynd yn fwy encilgar ac yn llawer llai cymdeithasol pan maen nhw'n llwgu.

Mae bodau dynol wedi bod yn gwneud hyn ers miloedd o flynyddoedd. Bydd 90% o bobl sy'n cwtogi ar eu cymeriant bwyd yn ormodol yn gorfwyta mewn pyliau.

Mae'r diagram isod yn dangos y corff yn parhau i wneud ei 'swyddogaethau' (gweithgareddau ac ymarfer corff bob dydd, treulio prydau rheolaidd, a swyddogaethau metabolaid h.y. metaboledd) yn y golofn chwith; ar hyd y gwaelod gwelwn gymeriant cyfyngedig neu lai dros gyfnod; ac ar y dde gwelwn gyfuniad o'r ddwy elfen hyn yn arwain at orfwyta mewn pyliau.




Weithiau ar ôl gorfwyta mewn pyliau, rydym yn teimlo euogrwydd a gofid. Gall hyn ein harwain at gwtogi ar ein cymeriant i wneud iawn am y pwl o orfwyta. Fodd bynnag, yr hyn a brofir yn aml ar ôl y cyfnod hwn o gyfyngu yw pwl arall o orfwyta.



Beth yw eich patrwm bwyta arferol? Ydych chi'n peidio â bwyta ambell bryd? Ydych chi'n osgoi grwpiau bwyd penodol? Os felly, pam? Ydych chi'n cael pyliau o orfwyta bwydydd rydych chi fel arfer yn ceisio eu hosgoi?

Pam ydw i'n gorfwyta mewn pyliau?




Nawr ein bod wedi archwilio rhai o'r rhesymau pam mae pobl yn gorfwyta mewn pyliau, mae'n bwysig i chi feddwl am eich profiadau personol eich hun. Gobeithio bod yr hyn rydych chi eisoes wedi'i ddarllen wedi eich helpu i fyfyrto ar y mater. Fel rydym wedi'i nodi, mae nifer o ffactorau a all arwain at orfwyta mewn pyliau, rhai hirdymor (megis nodweddion personoliaeth) a rhai mwy uniongyrchol (emosiynau, e.e. teimlo'n ddig). Un ffordd o nodi'r dylanwadau mwy uniongyrchol yw cwblhau dadansoddiad gorfwyta mewn pyliau. Bydd cwblhau un o'r rhain ar ôl pob tro byddwch yn cael pwl o orfwyta yn eich helpu i nodi eich sbardunau personol a dechrau meddwl am ffyrdd eraill o'u rheoli (bydd adran 5 yn cynnig syniadau i chi).

Enghraifft o Ddadansoddiad Gorfwyta mewn Pyliau

Torri Rheol Ddietegol

Wedi cael bar o siocled



Ymddygiad diatal

Wedi yfed ychydig wydreidiau o win




Tanfwyta

Hepgor brechwast a chinio




Digwyddiad neu hwyliau negyddol

Wedi ffraeo gyda chariad



Teimlo'n drist neu'n ddig



Gwersi i'w Dysgu


.....
.....

Meddylwch am y tro diwethaf i chi gael pwl o orfwyta a chwblhau'r dadansoddiad gorfwyta mewn pyliau ar y dudalen nesaf.

Dadansoddiad Gorfwyta mewn Pyliau

Torri Rheol Ddietegol

.....
.....



Ymddygiad diatal

.....
.....




Tanfwyta

.....
.....



Digwyddiad neu hwyliau negyddol

.....
.....




**Gorfwyta mewn
Pyliau**

Gwersi i'w dysgu...

Dadansoddiad Gorfwyta mewn Pyliau

Torri Rheol Ddietegol

.....
.....



Ymddygiad diatal

.....
.....




Tanfwyta

.....
.....



Digwyddiad neu hwyliau negyddol

.....
.....




**Gorfwyta
mewn Pyliau**

Gwersi i'w dysgu...

Dadansoddiad Gorfwyta mewn Pylliau

Torri Rheol Ddietegol

.....
.....



Ymddygiad diatal

.....
.....




Tanfwyta

.....
.....



Digwyddiad neu hwyliau negyddol

.....
.....




**Gorfwyta mewn
Pylliau**

Gwersi i'w dysgu...

Dadansoddiad Gorfwyta mewn Pyliau

Torri Rheol Ddietegol

.....
.....



Ymddygiad diatal

.....
.....




Tanfwyta

.....
.....



Digwyddiad neu hwyliau negyddol

.....
.....




**Gorfwyta mewn
Pyliau**

Gwersi i'w dysgu...

Dadansoddiad Gorfwyta mewn Pylliau

Torri Rheol Ddietegol

.....
.....



Ymddygiad diatal

.....
.....




Tanfwyta

.....
.....



Digwyddiad neu hwyliau negyddol


.....
.....



**Gorfwyta mewn
Pylliau**

Gwersi i'w dysgu...

Canlyniadau Gorfwyta mewn Pyliau



Gall gorfwyta mewn pyliau arwain at nifer o ganlyniadau sy'n ymwneud â phroblemau corfforol, seicolegol a chymdeithasol. Rhestrir isod rai o'r pryderon posibl sy'n gysylltiedig â gorfwyta mewn pyliau.

Wrth i chi fynd trwy'r rhestr, efallai y dylech ystyried pa rai rydych chi'n eu profi ar hyn o bryd a pha rai o'r canlyniadau fyddai'n peri rhywfaint o bryder i chi.

Corfforol

	<i>Problem gyfredol</i>	<i>Achos pryder</i>
Pwysedd gwaed uchel	()	()
Gorbwysau/BMI Uchel	()	()
Colesterol Uchel	()	()
Diabetes Math 2	()	()
Clefyd y Galon	()	()
Amharu ar gwsg	()	()
Bol chwyddedig	()	()
Dolur/poenau yn y stumog	()	()
Poen yn y cymalau	()	()
Problemau â ffrwythlondeb	()	()

Unrhyw syniadau neu sylwadau yn dilyn y gweithgaredd hwn? A oes unrhyw faterion eraill sy'n effeithio arnoch chi nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon?

Seicolegol / Emosiynol

	<i>Problem gyfredol</i>	<i>Achos pryder</i>
Meddwl prysur	[]	[]
Diffyg canolbwyntio	[]	[]
Amharu ar y cof	[]	[]
Anniddigrwydd	[]	[]
Newidiadau cyflym mewn hwyliau	[]	[]
Iselder	[]	[]
Gorbryder	[]	[]
Teimlo 'y tu hwnt i reolaeth'	[]	[]
Diffyg hyder	[]	[]
Teimladau o gywilydd/euogrwydd	[]	[]
Hunanbarch isel	[]	[]
Hunanwerth isel	[]	[]
Anfodlonrwydd â'r corff	[]	[]

Unrhyw syniadau neu sylwadau yn dilyn y gweithgaredd hwn? A oes unrhyw faterion eraill sy'n effeithio arnoch chi nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon?

Cymdeithasol/Ymddygiad:

	<i>Problem gyfredol</i>	<i>Achos pryder</i>
Wedi'ch ynysu	[]	[]
Teimlo'n unig	[]	[]
Cuddio rhag eraill	[]	[]
Osgoi bwyta cymdeithasol	[]	[]
Pryderon ariannol	[]	[]
Pwysau ar berthnasau	[]	[]
Effaith ar waith/addysg	[]	[]

Unrhyw syniadau neu sylwadau yn dilyn y gweithgaredd hwn? A oes unrhyw faterion eraill sy'n effeithio arnoch chi nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon?

Defnyddiwch y lle isod i ysgrifennu unrhyw syniadau/myfyrdodau terfynol ynghylch effaith gorfwyta mewn pyliau a'r hyn y gallai'r rhestr o ganlyniadau fod wedi'i amlygu i chi.

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the student to write their final thoughts or reflections on the effects of stress. The box occupies most of the page below the instruction.

Cymhelliant

Gall goresgyn anawsterau bwyta fod yn hynod heriol a bydd uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ar eich taith i sefydlu perthynas iachach â bwyd. Mae cymhelliant i newid yn cynyddu'r tebygolrwydd o oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â bwyd. Efallai y byddai archwilio eich lefelau cymhelliant eich hun yn lle da i ddechrau eich taith.

Ystyriwch y canlynol ar raddfa o 1-10:

Pa mor bwysig yw hi i chi newid?

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
---	---	---	---	---	---	---	---	---	----

Ddim yn bwysig o gwbl Pwysig iawn

Pa mor hyderus ydych chi yn eich gallu i newid?

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
---	---	---	---	---	---	---	---	---	----

Ddim yn hyderus iawn Hynod hyderus


Unrhyw syniadau neu sylwadau yn dilyn y gweithgaredd hwn? Sut allech chi gynyddu'r niferoedd?

Ffordd arall o archwilio cymhelliant yw ystyried y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â newid. Cwblhewch y tabl isod i gael mwy o syniad o beth fyddai newid eich ymddygiad bwyta yn ei olygu i chi:

Manteision <u>rhoi'r gorau</u> i orfwyta mewn pyliau	Anfanteision <u>rhoi'r gorau</u> i orfwyta mewn pyliau
Manteision <u>peidio â</u> rhoi'r gorau i orfwyta mewn pyliau	Anfanteision <u>peidio â</u> rhoi'r gorau i orfwyta mewn pyliau

Os ydych chi'n ystyried eich bod yn frwdfrydig dros newid, yna mae gweddill yr adran hon yn ceisio tynnu sylw at ffyrdd y gellid gweithredu newid.

Sut i roi'r gorau i Orfwyta mewn Pyliau



Cymhelliant

Gall goresgyn anawsterau bwyta fod yn hynod heriol a bydd uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ar eich taith i sefydlu perthynas iachach â bwyd. Mae cymhelliant i newid yn cynyddu'r tebygolrwydd o oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â bwyd. Efallai y byddai archwilio eich lefelau cymhelliant eich hun yn lle da i ddechrau eich taith.

Ystyriwch y canlynol ar raddfa o 1-10:

Pa mor bwysig yw hi i chi newid?										
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Ddim yn bwysig o gwbl										Pwysig iawn

Pa mor hyderus ydych chi yn eich gallu i newid?										
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Ddim yn hyderus iawn hyderus										Hynod

Unrhyw syniadau neu sylwadau yn dilyn y gweithgaredd hwn? Sut allech chi gynyddu'r niferoedd?

Ffordd arall o archwilio cymhelliant yw ystyried y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â newid. Cwblhewch y tabl isod i gael mwy o syniad o beth fyddai newid eich ymddygiad bwyta yn ei olygu i chi:

Manteision <u>rhoi'r gorau</u> i orfwyta mewn pyliau	Anfanteision <u>rhoi'r gorau</u> i orfwyta mewn pyliau
Manteision <u>peidio â</u> rhoi'r gorau i orfwyta mewn pyliau	Anfanteision <u>peidio â</u> rhoi'r gorau i orfwyta mewn pyliau

Os ydych chi'n ystyried eich hun yn frwdfrydig dros newid, yna mae gweddill yr adran hon yn ceisio tynnu sylw at ffyrdd y gellid gweithredu newid.

1. Hunan-fonitro

Bydd rhoi sylw manwl i'ch cymeriant yn cynyddu eich ymwybyddiaeth o'ch meddyliau, eich teimladau, eich barn a'ch ymddygiadau. Bydd monitro (yn ddelfrydol mewn amser real) yn eich helpu i ddod yn fwy ymwybodol o ymddygiadau sy'n gysylltiedig â bwyd y gallech fod wedi'u hystyried yn 'awtomatig' ac allan o reolaeth. Bydd rhoi mwy o sylw i 'beth, pryd a pham' y bwyd sy'n cael ei fwyta yn helpu i newid yr ymddygiadau negyddol sy'n gysylltiedig â bwyd.

Efallai y bydd pryder y bydd monitro yn cynyddu eich diddordeb dwys mewn bwyd. Mae hyn yn debygol o ddigwydd i ddechrau wrth roi mwy o sylw i'r hyn rydych chi'n ei fwyta. Fodd bynnag, mae'r monitro hwn yn bwysig ac ni fydd y diddordeb dwys yn para am byth.

Gellir archwilio 'dadansoddiad gorfwyta mewn pyliau' hefyd gan ddefnyddio'r adnoddau hunan-fonitro a gellir nodi sbardunau neu batrymau posibl ar gyfer ymddygiadau gorfwyta mewn pyliau.

Gallwch ddod o hyd i enghraifft o adnodd hunan-fonitro yng nghefn y llawlyfr hwn.



Adnodd Hunan-Fonitro

Amser	Cymeriant bwyd a diod	Lle	Cyd-destun a sylwadau

2. Bwyta'n Rheolaidd


Mae bwyta'n rheolaidd yn hanfodol i oresgyn unrhyw anhwylderau bwyta. I'r rhai sy'n gorfwyta mewn pyliau, mae rheoleidd-dra prydau bwyd yn lleihau amllder pyliau o orfwyta, sydd ynddo'i hun yn ffactor atgyfnerthu ac, yn ei dro, yn tueddu i gael effaith bositif ar hwyliau a hunanhyder.

Mae manteision bwyta'n rheolaidd yn cynnwys:

- Mae'n dod â strwythur i'ch diwrnod a gall bwyd ddod yn rhan arferol o'r diwrnod hwn.
- Mae'r lefelau siwgr yn y gwaed yn aros yn gyson, sydd yn ei dro yn helpu i atal blinder, anniddigrwydd a chwant bwyd.
- Mae'n helpu i frwydro yn erbyn bwyta heb strwythur e.e. pori neu bigo bwydydd.
- Mae'n gwella swyddogaeth fetabolaidd.
- Mae'n lleihau'r risg o fynd yn rhy lwglyd – gan leihau'r tebygolrwydd o bwl gorfwyta a theimlo allan o reolaeth.

Mae bwyta bwyd ar adegau rheolaidd yn caniatáu i brosesau eraill yn y corff reoleiddio eu hunain hefyd e.e. cwsg, hwyliau, system dreulio, swyddogaeth organau a chyhyrau. Mae hyn oherwydd bod y bwyd rydym ni'n ei fwyta yn rhoi egni i'n corff. Pan rydym ni'n bwyta, mae bwyd yn cael ei dorri i lawr i ffurf symlach - gelwir hyn yn siwgr neu glwcos. Weithiau gall fod cysylltiadau negyddol gyda'r termau hyn - pan gyfeirir atynt yn y ffordd wyddonol sylfaenol hon, siwgr neu glwcos yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r egni sydd wedi'i dorri i lawr sy'n cylchredeg yn ein llif gwaed.

Mae'r siwgr/glwcos yn mynd o gwmpas yn y llif gwaed, nes bod angen egni ar gyhyr ac yna mae'r cyhyr hwnnw'n amsugno'r siwgr/glwcos. Yna gall y cyhyr gyflawni ei waith. Mae cael swm cyson o siwgr/glwcos yn y gwaed yn bwysig gan ei fod yn golygu y gall cyhyrau gael yr egni sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt i gyflawni eu swyddi'n gywir. Mae cydbwyso lefelau siwgr yn y gwaed yn hanfodol ar gyfer lles corfforol a meddyliol trwy roi egni i'n celloedd weithredu'n normal heb ormod o glwcos yn y gwaed, cynnal ffordd o feddwl gadarnhaol, a rhoi'r gallu i ni ymdopi'n dda â straen. Mae'r graff isod yn dangos lefelau siwgr/glwcos yn y gwaed pan gaiff bwyd ei fwyta ar adegau rheolaidd mewn diwrnod.



Nod:

1. Bwyta 3 phryd wedi'u cynllunio ynghyd â 2-3 byrbryd y dydd.
2. Cadw at yr amseroedd prydau bwyd hyn ac osgoi bwyta yn y bylchau.
3. Anelu at fwyta bob 3-4 awr.
4. Os byddwch chi'n methu pryd o fwyd neu fyrbryd yna ewch yn ôl ar y trywydd iawn gyda'ch cynllun cyn gynted â phosibl yn ystod y dydd.




Gall fod yn ddefnyddiol wrth ddechrau cynllunio a pharatoi eich prydau bwyd a'ch byrbrydau ymlaen llaw. Ni fydd hyn yn rhywbeth y bydd angen i chi ei wneud am byth ond yng nghyfnodau cynnar eich taith at oresgyn gorfwyta mewn pyliau – gall y strwythur a'r paratoad hwn fod o fudd.

Glwcos yn y Gwaed

Beth yw glwcos? Pa fathau o fwyd fydd yn effeithio fwyaf ar ein lefelau glwcos yn y gwaed? Cymerwch eiliad i ysgrifennu rhai syniadau yma...

Sut mae lefelau isel o siwgr yn y gwaed yn effeithio ar y corff?

Meddyliwch am eich patrwm bwyta eich hun... Pe baech chi'n ei nodi ar ffurf graff, sut olwg fyddai arno? A oes adegau pan allai eich lefelau siwgr yn y gwaed fynd yn uchel neu'n isel? Rhowch gynnig arni yma...

 High						
 Normal						
 Low						
Meal times-	Breakfast.	Mid Morning.	Lunch.	Mid afternoon.	Main meal.	Supper.

Mae yna lawer o negeseuon gwahanol am faeth a all wneud y pwnc yn un dryslyd. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyfle i archwilio negeseuon maeth y mae pobl wedi'u clywed a meddwl am faeth mewn ffordd ffeithiol gyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n ddefnyddiol archwilio sut y gall anhwylder bwyta ddylanwadu ar syniadau o sut beth yw diet iach.


Plât Bwyta'n Dda vs. Canllaw Bwyta'n Dda

Cyhoeddwyd y Plât Bwyta'n Dda gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2010:




Cyhoeddwyd y Canllaw Bwyta'n Dda gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn 2016 i ddisodli'r Plât Bwyta'n Dda blaenorol:

Pa wahaniaethau ydych chi'n sylwi arnynt rhwng y ddau fodel?




Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam y gallai'r newidiadau fod wedi'u gwneud?



The REAL Food Guide

Cyhoeddwyd The REAL Food Guide yn 2018 yn benodol i'w ddefnyddio gyda chleifion ag Anhwylderau Bwyta. Mae'n defnyddio egwyddorion craidd maeth, gan ystyried y credoau a'r wybodaeth anghywir sy'n aml yn cael eu hybu gan unigolion ag anhwylderau bwyta. Dyma'r canllaw y byddwn yn canolbwyntio arno...



Ydych chi'n cael trafferth gydag unrhyw fwydydd / grwpiau bwyd penodol? Rhowch gynnig ar ysgrifennu'r rhain ar y bwrdd goleuadau traffig hwn...

Coch	Oren	Gwyrdd

Ffrwythau a Llysiau

Treuliwch ychydig funudau yn meddwl am y grŵp bwyd hwn...


- Beth ydych chi'n ei wybod am y grŵp bwyd?
- Pa faetholion mae ein corff yn eu cael o'r grŵp hwn?
- Unrhyw gwestiynau am y grŵp bwyd?
- Mythau cyffredin / pethau rydych chi'n eu gweld a'u clywed pan fo eraill yn siarad am y grŵp bwyd hwn.



Carbohydradau

Treuliwch ychydig funudau yn meddwl am y grŵp bwyd hwn...


- Beth ydych chi'n ei wybod am y grŵp bwyd?
- Pa faetholion mae ein corff yn eu cael o'r grŵp hwn?
- Unrhyw gwestiynau am y grŵp bwyd?
- Mythau cyffredin / pethau rydych chi'n eu gweld a'u clywed pan fo eraill yn siarad am y grŵp bwyd hwn



Bwydydd Calsiwm

Treuliwch ychydig funudau yn meddwl am y grŵp bwyd hwn...


- Beth ydych chi'n ei wybod am y grŵp bwyd?
- Pa faetholion mae ein corff yn eu cael o'r grŵp hwn?
- Unrhyw gwestiynau am y grŵp bwyd?
- Mythau cyffredin / pethau rydych chi'n eu gweld a'u clywed pan fo eraill yn siarad am y grŵp bwyd hwn



Protein

